

1 Yr ardal hyd ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg

Ei enwau blaenorol; yr ardal yn yr Oesoedd Cynnar; y fro a dan y Tywysogion Cymreig (hyd oddeutu 1282).

Priodol ydyw dechreu gyda rhestr o'r enwau a roddwyd, o dro i dro, ar yr ardal y bwriedir trafod yr hyn sydd ar gael o'i hanes. Ei henw cyntaf, hwyrach, oedd Rhosyr,¹ a hwyrach hefyd mai'r rheswm oedd ei bod ar gefn hir o dir rhos yn ymestyn am ddeng milltir o Niwbwrch i Fynydd Llwydiarth; ond ni thâl yr eglurhad yma os Rhosyr, ac nid Rhos-hir, ydyw'r ffurf iawn ar yr enw. Enw'r plwyf, fodd bynnag, oedd Llananno, ond ni yr neb pa un ai g r ai gwraig oedd Anno, na pha bryd y bu fyw. Gelwid y lle hefyd yn Rhosfair; dyna, hwyrach, ei enw yn amser y tywysogion a gwyddis mai yn enw'r Forwyn Fair y cysegrwyd cangell yr eglwys bresennol.² Wedi i'r brenin Iorwerth y Cyntaf sefydlu bwrdeisdref yn y fan fe alwyd y dref, yn naturiol ddigon, yn Novum Burgum, yn Saesneg Newburgh neu Newborough, ac ar dafodau y trigolion Niwbwrch. O'r adeg yma ymlaen tuedd³ i gyfeirio at y faenor, neu'r arglwyddiaeth, dan yr enw Rhosfair ac at y dref dan yr enw Niwbwrch neu Newborough. Erbyn y ddeunawfed ganrif collwyd pob cof am Anno ond arhosai enw'r sant, sef Pedr⁴, y cysegrwyd yr eglwys iddo dan ddylanwad y Normaniaid, ac enw cyffredin y lle oedd Llanbedr Newborough.

Cyn dyfod y Rhufeiniaid i Gymru yn y ganrif gyntaf ar ôl Crist, ar hyd glannau'r môr y trigai pobl Môn, yn arbennig felly yn y pegwn deheuol, oherwydd gorchuddid y rhan fwyaf o'r Ynys gan goedwig drwchus a chors lle y llechai anifeiliaid o lawer math. Yma, ni gredwn, y tyfai y dderwydden (*quercus robur*). Ceir sicrwydd bod yr ardal sydd heddiw yn Dywyn Llanddwyn yn drigfan pobl rai cannoedd, onid miloedd, o flynyddoedd cyn Crist, sef yn y cyfnod rhwng yr Hen Oes Faen a'r Oes Faen Newydd. /2/Yn y cyfnod hwn bywyd anifeiliaid, bron yn hollol, oedd bywyd y trigolion, a dibynnent ar gig yr helpa a physg môr ac afon am eu bwyd, gan eu digoni eu hunain ambell dro â gwreiddiau'r prysgw dd ac aeron y goedwig. Rhyw ugain mlynedd yn ôl, rhwng Brynllwyd ag Ynys Llanddwyn, ar ddwy ochr y gefn o greigiau, deuwyd o hyd i weddillion gweithfa gallestr (carreg dân), lle y gwneid celfi a min arnynt drwy ysglodi ymylon y cerrig. Yno yr oedd llawer o gerrig o'r natur

1 Tebyg yw mai enw ar y cantref oedd hwn ar y dechrau, a galwyd prif dre'r gantref wrth yr un enw. Felly hefyd enwau Aberffraw a Chemaes

2 "Mae llys yn Rhosfair - mae llyn,
Mae Eurglych - mae Arglwydd Llywelyn,
A gw r tal yn ei ganlyn,
Mil myrdd, mewn gwyrdd a gwyn."

3 Yn ol y *Ministers' Accounts* yn y *Public Record Office* yn Llundain.

4 Pan aeth yr hen Eglwys Brydeinig yng Nghymru o dan ddylanwad y Normaniaid a'r Babaeth, newidiwyd enwau llawer o'r seintiau Cymreig am enwau Ysgrythurol. Mae'n debyg mai trwy rhyw oruchwyliaeth felly y cafodd eglwys Niwbwrch yr enw Sant Pedr.



Fig. 1 *Rhwng Bryn-Llwyd ag Ynys Llanddwyn [between B.Ll and Y.Ll]*

yma ac yn eu mysg nifer o grafellau (*flakes*) a ddefnyddid i grafu ac ystwytho crwyn wedi eu sychu, er gwneuthur dillad ohonynt, ynghyda rhai ugeiniau o ddarnau gweddillion priddlestri coch ac ychydig o esgyrn wedi eu ffosileiddio.

Ar y wyneb y cafwyd y cerrig hyn, ond mwy na thebyg fod miloedd ohonynt o'r golwg dan y tywod.⁵ Anfonwyd siamplau o'r darganfyddiadau hyn i w r cyfarwydd yn yr Amgueddfa Brydeinig, a'u barn hwy oedd bod y cerrig yn perthyn i'r cyfnod 5000 C.C., a'r priddlestri, gweddillion diod-lestri (*beakers*) i gyfnod diweddarach, oddeutu 2000 C.C.⁶ Addurnwyd y priddlestri drwy bwysu ymyl cragen gocos as y clai pan oedd yn feddal. Gan nad oedd llestri yn parhau yn hir yr oes honno (mwy nag yn awr !), maent yn ddangoseg dda, yr orau yn wir, o ddyddiad unrhyw gyfnod. Yn yr un man cafwyd amryw bennau saethau o gallestr a darn o fwyell garreg. Hefyd, ar hyd y tair milltir o lan y môr rhwng Ynys Llanddwyn ag Aber-menai, canfuwyd digonedd o garegenau callestr llyfn, a naturiol yw tybied mai ar hyd y traeth hwn y byddai y brodorion cyntefig yn dod o hyd i'w defnyddiau.⁷ Ychydig iawn o gallestr a ddarganfuwyd yng Nghymru, a'r unig fan i'w gael bron oedd gerllaw'r môr, o welyau rhedlifogydd rhew Môr Iwerddon. Heblaw hyn oll, yn y tywyn gwelir yn amlwg domennydd mawr o gregin cocos a gwichiad, cregin gleision a llygaid myheryn. Cregin cocos yw'r mwyafrif ohonynt. Dyma restr gyflawn, gyda'r enwau gwyddonol, o'r cregin a welwyd:

5 Wrth ymyl ceir olion tebyg iawn i eiddo cwt gw dd, rhyw 20 troedfedd ar ei draws, a chreigiau yn gylch iddo. Y mae'r graig Bryn-llwyd ei hun yn serth ar dair ochr iddi ac yn ffurfio caerfa naturiol.

6 Anglesey Antiquarian Society's Transactions, 1927, pp. 23-33, 36

7 A.A.S.T. 1928 pp.21-7




Fig. 2 Crafellau [flakes]

Cardium edule - llawer; *cardium norvegicum* - prin; *cyprina islandica* - prin; *mytilus edulis* - prin a bychain; *tapes virgineus* - ychydig; *maetra solida* - ychydig; *pectunculus glycimaris* - ychydig; *pecten opercularis* - ychydig ; *pecten varius* - ychydig; *littorina littorea* - ychydig; *patella vulgata* - lled brin; *buccinum undatum* - lled brin; *ostrea edulis* - nifer dda mewn un lle, a thystiant yn eglur beth oedd un o brif fwydydd y bobl oedd yn byw yma yr adeg honno. Nid oes cregin cocos i'w gweled ond yn unig ar ochr Llanddwyn i'r wal derfyn o Dir-Forgan i Gerrig Gladus.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod y tomennydd cregin hyn heddiw o angenrheidrwydd yn eu ffurf na'u huchder gwreiddiol, /3/ oherwydd gyda threigliad amser, symudir y tywod gan wynt a glaw gan beri i'r domen gregin ostwng llawer troedfedd a gwastatau. Ar un domen, yn glos oddi tan Bryn-llwyd, rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, darganfuwyd nodwydd asgwrn ddwy fodfedd o hyd, gyda blaen ar bob pen iddi. Gan fod y blaen ar y pen nesaf i'r llygad wedi treulio, y tebyg ydyw mai y pen â llygad ynddo a wthiwyd i'r defnydd i'w wnio, oherwydd buasai hyn yn diogelu llygad y nodwydd rhag cael ei dorri. Tybir fod y nodwydd hon yn perthyn i ddiwedd yr Oes Faen Newydd.⁸ Deuwyd o hyd hefyd i bethau yn perthyn i gyfnod y Rhufeiniaid, oddeutu 300 O.C., sef llwy fach, tebyg i lwy mwstard, a ddefnyddid gan foneddigesau Rhufeinig i lanhau'r glust, ynghyda gefeiliau. Mae'n bosibl fod rhyw fenyw wedi colli ei 'vanity set' rhyw dro yn y lle mae'r tywyn yn awr.⁹

8 A.A.S.T. 1927 p.35

9 A.A.S.T. 1928 p.26



Fig. 3 Gweddillion Diod-Lestri [beakers]

Cyn i'r brenin Iorwerth oresgyn gogledd Cymru yn y drydedd ganrif ar ddeg, a phan oedd Meirionnydd, Eifion, Lleyn, Arfon a Môn yn cyfansoddi Gwynedd, rhedai priffordd y Tywysogion Cymreig drwy Harlech a Chricieth i Aber-menai, ac ymlaen i Aberffraw lle y dywedir y ceid prif lys tywysogion Gwynedd. Yno, yn ôl Buchedd Gruffydd ap Cynan, y cynullodd y tywysog hwnnw ei lynges gyda'r bwriad o adennill ei etifeddiaeth. Gan mai o Iwerddon y byddai yn cychwyn bob tro, yn Aber-menai¹⁰ (nid yng Nghaergybi, fel y buasem yn tybied y dyddiau hyn) y tiriai yn wastad, a hynny oherwydd y gallai gw r o bob than o Wynedd gymryd y briffordd tuag yno. Cyn i'r tywod ffurfio traeth Abermenai a'r banciau gyferbyn â Thal-y-foel, yr oedd yma angorfa fawr a chyfleus i lyngesoedd o longau ac ysgraffau.¹¹

10 Ceir cyfeiriad at Aber-menai yn hanes Math mab Mathonwy yn y *Mabinogi*, lle y dywedir i Gwydion gyda bachgen ieuanc adael Caer Dathyl a cherdded ar lan y môr rhwng y fan honno ag Aber-menai; yno gwelodd hesg a gwymon ac ohonynt gwnaeth gwch i fyned i borthladd Castell Arianrod.

11 Yn "New Map of the Island of Anglesey drawn by the best authorities," gan T. Kitchin (Baldwin, Pater Noster Row: 1755), dangosir ffordd o Abermenai drwy Llanbedr (lle saif eglwys y plwyf) ac ymlaen i gyfeiriad yr Aberffraw; hefyd ffordd arall o "Newburgh" yn cyfarfod y ffordd gyntaf yn Llanbedr. Oddeutu hanner ffordd ar linell o Ffarm Bodeon i Aber-menai, ac yn y tywyn, ceir lle 22 wrth 40 llath wedi ei amgau, ac ynddo gyflawnder o esgryn a dannedd gwartheg; o bosibl mai "halt" oedd y llecyn hwn yn cael ei ddefnyddio gan borthmyn ar eu ffordd i Lundain ac ambell anifail yn cael ei ladd oherwydd ei wasgu i le mor gyfyng. Yr oedd dau ryd i groesi Morfa Malltraeth wrth ddyfod o Aberffraw am Aber-menai: (1) O'r lle y saif pentref Malltraeth yn awr i gyfeiriad carreg ddu fawr ar y Morfa; (ceir tyddyn cyfagos a elwir "Rhyd-y-maen-du"). (2) O eglwys Trefdraeth heibio carreg wen yn y Morfa i Lon Digoed yng nghyfeiriad Llangaffo. Safai'r hen d Tân-lan yn ymyl cwr y Morfa, ac yno y glaniai teithwyr wrth groesi o Drefdraeth i Niwbwrch.

A barnu yn ôl yr hen Gyfreithiau Cymreig, tystiolaeth croniclwyr yr unfed ganrif ar ddeg ac ysgrifau diweddarach Gerallt Gymro, cynhwysai Cymru y cyfnod hwnnw nifer o deyrnasoedd dan lywodraeth arglwyddi; ymestynai pob teyrnas dros un neu ychwaneg o gantrefi a chynhwysai pob un ddau neu ychwaneg /4/0 gymydau. Amaethwyr, yn bennaf, oedd y trigolion ym Môn, yn byw mewn minteioedd bychain teuluaid yn ôl traddodiadau ac arferion cyfundrefn y llwythau Cymreig; trigai'r taeogion breintedig (*liberi nativi*)¹² yn eu tyddynnau ar wasgar, a'r dosbarthiadau caeth eraill mewn rhandiroedd¹³ yn cynnwys nifer o fythynnod.

Ym mhob cwmwd, fel yng nghwmwd Menai, ceid maenor neu lys y tywysog, wedi ei neilltuo ar gyfer y tywysog a'i dylwyth. Safai'r faenor hon yn Rhosfair, ac yma y cynhelid y llys ac y rhoddid cyfrif am bob gwasanaeth a thaliad dyledus i'r tywysog a'r stiward a lywyddai yn y llys. Safai hwnnw, yn ôl pob tebyg, yn y fan a elwir heddiw Cae Llys, ond nid oes bellach yr un garreg ohono i'w chanfod.¹⁴ Gwelodd yr hynafiaethydd Henry Rowlands olion ei furiau, ar ffurf petryal,¹⁵ ond erbyn hyn gorchuddiwyd hwy eilwaith gan y tywod.¹⁶ Cynhwysai poblogaeth y faenor yn y bedwaredd ganrif ar ddeg¹⁷ dri math o ddeiliaid, sef (1) *puri nativi vocati mairdreve*¹⁸ (2) *nativi qui se dicunt esse liberos nativos* (taeogion yn honni on bod yn rhydd); (3) *nativi vocati Gardynemen*. Fe wyddom at ba delerau y dalient eu tir, ond ni ellir bod yn sicr ynghylch eu cyflwr. Amheus, felly, o angenrhaid, ydyw'r eglurhad a gynigir yma. /5/

(1) TENANTIAID Y FAERDREF.

12 Gweler tud. 5.

13 Neu "drefi" o'u cyferbynnu a *patria* - "y wlad."

14 Awgryma'r englyn a geir yn nodiad 2 mai Rhosfair oedd trigfa'r Tywysog Llywelyn; felly hefyd dyfyniad a ganlyn o'r *Charter Rolls* II. 460: "A Charter, whereby Llewelyn, prince of Aberfraw, lord of Snowdon, gave to the prior & canons of Insula Glannauc all the Abbey (Abadaeth) of Penmon &c. dated at Rosver, 4 Ides April, A.D. 1237." Wrth ddweud hyn nid yr amcan yw ceisio gwadu bodolaeth neuadd Tywysog yn Aberffraw, oherwydd y mae nodyn ar gael, dyddiedig 20 Chwefror 1317, yn sicrhau bod coed y neuadd ac adeiladau eraill y Tywysog yn Aberffraw wedi eu cymryd oddi yno i adgyweirio castell Caernarfon. - *King's Remembrancer Accounts*; gwel *Cymmrodor* (1917), tud. 17 Yn ôl *Record of Caernarvon* meddai Rhos-fair yn 1335 "balas a chapel frenhinol." Teg yw casglu mai yn Rhos-fair y trigodd y tywysogion Cymreig ar ôl llosgi trei a llys tywysogol Aberffraw gan y Gwyddelod oddeutu'r flwyddyn 966. (*Brut y Tywysogion* s.a. 966).

15 *Arch. Camb.* I.i. 311; am y gwreiddiol gweler Llsgf. Panton 36.

16 Gweler ymhellach hanes eglwys y plwyf, pennod xii.

17 Gweler *Record of Caernarvon*, tt. 83-4. Er bod y manylion a ganlyn (gwel tt. 6, 7) wedi eu cofnodi ar ol gorchfygiad Gwynedd gan y brenin Iorwerth I, gellir cymryd yn ganiataol mai y rhai hyn oedd dyletswyddau y deiliaid i Lywelyn a'r tywysogion o'i flaen. Y pryd hynny yr oedd gwerth tir mor fychan fel nad oedd union faint tir heb ei amgau yn fawr o bwys; dyna paham nad oedd terfynau pendant i'r maenoriaid. Yr oedd pobl a oedd yn byw mewn lleoedd *neilltuol*, ac yn cyflawni yr un gwasanaethau, yn cael eu hystyried yn un grŵp, beth bynnag oedd maint eu tiroedd. Dim ond am dir wedi ei amgâu, neu a therfynau o ryw fath iddo, y telid ardreth.

18 h.y. gw r y faerdref, y crybwyllir amdanynt yng Nghyfreithiau Hywel Dda; y faerdref oedd fferm y tywysog.

Oherwydd eu galw yn *puri nativi*, y mae'n amlwg y cyfrifid y rhain yn daeogion. Dalient rhyngddynt ddeuddeg gafael a banner, a thalai bob un 2s. 8³/₄c. o rent bob chwarter blwyddyn. Cyfanswm y rhent, felly, oedd £6 16s. 5¹/₂c. yn y flwyddyn; ond, heblaw yr arian, yr oedd y tenantiaid hyn dan rwymedigaeth i dalu mewn gwasanaeth, sef i drwsio adeiladau y llys a'r felin pan fyddai angen, ac i gario bwyd y Tywysog a'i deulu, neu i dalu 1¹/₂c. y dydd i osgoi y ddyletswydd honno. Rhaid oedd i bob un ohonynt hefyd dalu pum swllt pan etifeddai ei dir a phum swllt ar achlysur priodas ei ferch.

Yng nghyfreithiau Hywel Dda disgrifir dyletswyddau gw r y faerdref (h.y. tenantiaid faenor frenhinol) fel hyn:

"Yr oeddynt yn rhwym i wneud o'dyn galch ac ysgubor: y brenin a'u hadgyweirio pan fyddai angen; i dalu *twnc* (h.y. ardreth) ar eu tir (mewn arian neu d) i ddwylo maer y biswail (goruchwyliwr y faenor) ac i roddi iddo fwyd ddwywaith yn y flwyddyn; i ddyrnu, pobi, medi, llyfnu, lladd gwair, i gasglu gwellt a thanw dd, mor aml ag y byddai'r brenin yn dod i d'r faenor (llys);¹⁹ hefyd, i ddarparu ar gyfer y brenin pan fyddai yn nh'r faenor, yn ôl eu gallu, un a'i gyda defaid, yn, mynnau, neu gydag ymenyn, caws neu laeth."

(2) Y TAEOGION BREINTIEDIG.

Efallai fod y rhain yn cyfateb i'r dosbarth o ddeiliaid yng Nghemaes a Phenrhos a elwid *Gwir Male*, sef 'gwyr mael', dynion yn talu eu hardreth mewn arian ac nid â chynnyrch neu lafur. Ystyrid talu ag arian yn fwy anrhydeddus ac yn addasach i ddeiliaid rhydd, a hwyrach mai dyna paham yr hawliai y tenantiaid hyn eu bod yn rhydd. Efallai, yn wir, mai rhydd oedd eu teidiau yn nyddiau'r tywysogion Cymreig ond bod swyddogion brenin Lloegr, ar gam neu mewn camgymeriad, yn eu cyfrif ymhlith taeogion (*nativi*). O'r ochr arall, hwyrach mai taeogion oedd on hynafiaid ond bod rhyw dō ohonynt rywffodd wedi llwyddo i wella on cyflwr, a'u bod ar y ffin megis rhwng taeog a rhydd.

Dalient rhyngddynt wyth gafael o dir, fel a ganlyn, yr ardreth i'w dalu bob chwarter blwyddyn:

19 Ymddengys bod y maer-drefwyr tua'r flwyddyn 1337 wedi hysbysu y brenin, pe baent yn adgyweirio y plâs (llys) a'r capel na fyddent fawr os dim mantais iddo. Wedi ymholiad gan y brenin, a deall mai 23/4 yn flynyddol a fuasai cost yr adgyweirio, penderfynodd y brenin gymryd y swm yma bob blwyddyn oddi ar y maer-drefwyr a'u rhyddhau hwy oddi wrth yr adgyweirio. - Sebright Papers, Angharad Llwyd's *Mona*, pp.309-310.

Deiliad	Maint y tir	Enw'r gafel meu'r tir	Ardreth flynyddol
Tegerin Llwyd ab Dafydd ap Tegerin	1 gafel	Dafydd ap Tegerin	5 - 9
Ieuan ap Madog ap Maredudd	1 gafel	Madog ap Maredudd	6 - 6
Madog ap Cad.	3½ gafel	Cad. ap Grono	7 - 6
Thomas ap Adda ap Thomas	½ gafel	Adda ap Thomas	2 - 2
"	½ gafel	?	5 - 5½
Ieuan ap Adda ap Tegerin	1 gafel	Porthweision	12 - 8
Madog ap William	1 gafel	"	
Dafydd ap William	1 gafel	"	
Madog ap Ieuan	1 gafel	"	
Ieuan ap Ieuan	1 gafel	Porthorion ²⁰	6 - 0
Ieuan ap Madyn ap Meilir	1 gafel	"	2 - 6
Gruffydd ap Iorwerth	1 gafel	"	2 - 7
William ap Madog ap Iorwerth	1 gafel	"	0 - 5
Iorwerth ap Madog	rhan ganol un gafel	Meudwy	4 - 8
Ieuan Goch	rhan ganol un acer	?	2 - 2
William ap Madog Grythor	rhan ganol un gafel	Madog Goch (?)	3 - 6
Ieuan ap Madyn ap Meilir	?	Madyn ap Meilir	2 - 2
Ieuan Goch ap Madyn	2 <i>bovati</i> ²¹	Madyn Trwyn	4 - 1
Pobl y drefgordd Rhosyr	?	Dafydd ap Ithel ap Ieuan	2 - 2
"	?	Gwastewi	2 - 0
William ap Meilir	?	Garthor	5 - 4
Gruffydd ap Iorwerth Foel	1 gafel	Philip Mon	4 - 0

²⁰ Y porthor oedd i alw dynion y faerdref i'w gwaith; ef hefyd yn gyffredin, ofalai am y carchar ("rheinws")

²¹ *bovate* - tir a ddelid yn rhinwedd meddiant o un ych.




Fig. 4 Pennau Saethau o Gallestr [flint arrow-heads]

/7/Yr oedd pawb a ddywedai ei fod yn perthyn i'r dosbarth hwn, yn rhwym i ddefnyddio melin Rhosfair, i gyfrannu at stoc fferm y tywysog, ac i dalu 10/- wrth etifeddu tir a 10/- ar briodas ei ferch bob tro y digwyddai hynny. Cyfanswm yr ardreth flynyddol a dalai y dosbarth hwn oedd £5. Oddi wrth y rhestr uchod, gwelir bod y mwyafrif o'r deiliaid yn etifeddu tir ar ôl eu tad.

(3) TENANTIAID Y GERDDI.

Cyfrifid y rhain hefyd yn daeogion. Daliant ddeuddeg o erddi. Dyma eu henwau a'u hardreth flynyddol:

	<i>Gardd</i>		<i>s. c.</i>
Ieuan ap Madyn	1	Adda Ddu	1 1
" "	1	Efa ffol	1 4
David ap Adda Chwith (?)	2	Adda Chwith (?)	2 3
Ithel ap Madog Ddu	1	Werkis	1 4
Gwenllian ferch Ieuan Grythor	1	Ieuan Grythor	1 2
Nest ferch Ithel	1	Dolbemnen	1 0
Iorwerth Raby (?)	1	Maredudd ap Matthew	1 10
Iorwerth ap Madyn	1	Efa Felyn	0 10
" "	1	Tefwared Cals (?)	1 10
William ap Einion	1	Soyths (?)	0 8½
Grono ap William	1	Bondes	0 8½




Fig. 5 *Nodwydd Asgwrn* [bone needle]




Fig. 6 *Llwy Fach, gyda gefeiliau* [small 'spoon' and ancillaries]

Ceid dwy ardd a phwll gro ynddynt, sef gardd Map. Bole, gydag ardreth flynyddol o 5c. a gardd Cernestrens gyda 4c. o ardreth y flwyddyn. Cyfanswm ardreth flynyddol tenantiaid y gerddi oedd 13/1. Rhaid oedd iddynt hefyd ddefnyddio melin Rhosfair a thalu 2/- pan etifeddent dir a 2/- ar briodas y ferch pan ddigwyddai hynny, ac yn ychwanegol, sicrhau meirch i'r brenin i farchogaeth yn y frwydr, ond yr oeddynt yn rhydd rhag pob gwasanaeth arall. Cyfanswm ardreth flynyddol y tri dosbarth oedd £12 9s. 6½c.

Yn ddiweddarach, newidiwyd y rhan gyntaf o'r faenor, a'r nesaf i lys y Tywysog, i fod yn fwrdeisdref; gelwid y rhan arall o'r faenor wrth yr enw Hendre Rhosyr, ac ati ychwanegwyd Rhoscolyn, Sybylltir a Bryngwallen fel rhandiroedd (*hamlets*).